Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Penaethiaid Cangen (Gradd 7)

# **Pecyn Gwybodaeth**

**Dyddiad cau: 18 Hydref 2021**

regulated by Civil Service Commissioners

disability confident COMMITTED

## Cynnwys

Cyflwyniad .... 3
Pam gweithio i Estyn? .... 4
Cydraddoldeb ac amrywiaeth .... 4
Gweithio'n Glyfar .... 4
Am bwy rydym ni'n chwilio .... 5
Manyleb yr Unigolyn .... 9
Amdanom ni – Ein gwaith, ein gwerthoedd .... 10
Buddion ymuno ag Estyn .... 11
Ymgeisiwch nawr! .... 13
Ymholiadau Pellach .... 13
Amserlen ddewis .... 14

**Lawrlwythwch y pecyn hwn yn Saesneg ar ein gwefan neu e-bostiwchrecriwtio@estyn.llyw.cymru i gael copi**

# Cyflwyniad



Diolch am ddangos diddordeb mewn gweithio i Estyn.

Mae'n adeg gyffrous i ymuno â ni. Rydym yn cefnogi diwygiadau addysg yng Nghymru, yn cynnwys datblygu'r cwricwlwm newydd, ac rydym ni'n gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn arolygu ac yn cefnogi ysgolion. Rydym ni'n chwilio am ddau o bobl i ymuno â'n tîm Gwasanaethau Corfforaethol fel Penaethiaid Cangen i arwain a rheoli ein gwasanaethau galluogi sydd â rôl hanfodol mewn cefnogi cyflawni ein hamcanion allweddol. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhychwantu cyfathrebu, AD, cyllid, llywodraethu, TG, cynllunio, ymchwil a mwy. Ymunwch â ni a byddwch yn cael eich trochi mewn sefydliad blaengar ac esblygol lle byddwch chi'n cael cyfle i wella eich medrau a datblygu eich gyrfa yn y Gwasanaeth Sifil.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys mwy o fanylion am weithio gyda ni, gwybodaeth am y rôlau, a manylion ar sut i wneud cais. Hefyd, rydym wedi creu Dogfen Arweiniad gyda gwybodaeth am y broses ddewis, a chynghorion i'ch helpu i gwblhau eich cais.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.



Phil Sweeney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

# Pam gweithio i Estyn?

Mae Estyn yn lle gwych i weithio, a'n pobl yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Mae ein canlyniadau Arolwg Pobl yn gyson ymhlith y gorau yn y Gwasanaeth Sifil. Cydnabuwyd ein buddsoddiad yn ein pobl trwy'r wobr Safon Aur gan Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP).

Rydym yn ymgysylltu â'n pobl trwy eu gwerthfawrogi, gwrando arnynt, a'u hannog i ddatblygu eu medrau a'u doniau.  Fel aelod o'n tîm, byddwch yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau gwerthfawr i helpu datblygu'ch gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu unigol, dysgu mewn tîm, dysgu proffesiynol a dysgu sefydliadol, a datblygiad parhaus.  Fel Gwas Sifil, bydd amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i chi ar draws y Gwasanaeth Sifil.

Pan fyddwch chi'n ymuno ag Estyn, byddwch yn cael eich cefnogi gan rwydwaith o fewn eich tîm, ac ar draws y sefydliad. Byddwch chi'n cael cyfnod ymsefydlu cynhwysfawr ar gyfer eich rôl, a sut mae hyn yn cyd-fynd â gweddill y sefydliad.

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym yn cefnogi ac yn croesawu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol. Rydym yn cydnabod bod pawb yn dod â sgiliau a phrofiad gwahanol i'n sefydliad, ac mai'r amrywiaeth hon yw'r hyn sy'n gwneud sefydliad cryf. Rydym yn annog ceisiadau o'r amrywiaeth ehangaf bosibl o gefndiroedd, diwylliannau a phrofiadau. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o gefndir ethnig lleiafrifol, yn arbennig, yn ogystal â phobl sy'n byw ag anabledd.

# Gweithio'n Glyfar

Rydym yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio i annog Gweithio'n Glyfar. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar sut rydych chi'n defnyddio eich amser, a ble a sut rydych chi'n gweithio, i ddiwallu anghenion busnes yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol. Rydym yn disgwyl y bydd timau yn gweithio o gartref am y rhan fwyaf o'u hamser, hyd y gellir rhagweld.

# Am bwy rydym ni'n chwilio

Rydym ni'n recriwtio dau Bennaeth Cangen i arwain a rheoli ystod o wasanaethau galluogi.  Fel rhan o'r tîm arweinyddiaeth gorfforaethol, byddwch chi'n gyfrifol am y canlynol:


- gosod cyfeiriad
- ymgysylltu â phobl
- arwain, datblygu a grymuso timau, systemau a gwasanaethau sy'n cyflawni canlyniadau ac yn cefnogi cyflawni ein hamcanion strategol

Byddwch chi:

- yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig yn eich meysydd cyfrifoldeb
- yn goruchwylio rheoli adnoddau, prosiectau a phrosesau gwella busnes sy'n diwallu anghenion busnes ac yn darparu gwerth am arian
- yn goruchwylio rheoli systemau busnes effeithlon
- yn ymchwilio, drafftio a gweithredu strategaethau a pholisïau priodol, ac yn sicrhau cydymffurfio â rheoleiddio mewn perthynas â meysydd cyfrifoldeb
- yn cyflwyno prosiectau "galluogi menter" i gyflawni newid ac/neu arwain cyflwyno mentrau trawsbynciol eraill, yn unol â chyfarwyddyd gan yr uwch dîm rheoli
- yn datblygu systemau sicrhau ansawdd ar gyfer prosesau i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon
- yn gweithio ar y cyd ac yn hyblyg â phenaethiaid cangen eraill i gyflawni blaenoriaethau busnes ar draws pob cangen
- yn sicrhau y glynir yn llawn ac yn effeithiol at safonau'r Gymraeg yn eich meysydd cyfrifoldeb
- yn mynychu ac yn cyfrannu at wneud penderfyniadau ar uwch bwyllgorau, byrddau a grwpiau
- yn cyflenwi ar gyfer meysydd cangen eraill o bryd i'w gilydd, yn ôl yr angen
- yn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill, fel a allai fod yn rhesymol ofynnol

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu pob un o'n rolau Gwasanaethau Corfforaethol - a bydd recriwtiaid newydd yn cael cyfle i gyfrannu at benderfyniadau strwythurol yn y dyfodol.  Bydd Penaethiaid Cangen yn gyfrifol ar y cyd am gyflwyno gwasanaethau ar draws pob swyddogaeth.  Byddwch chi'n gyfrifol yn unigol am dîm o ryw 15 aelod o staff yn cyflwyno sawl un o'r meysydd gwasanaeth canlynol:

- Llywodraethu, yn cynnwys cymorth ysgrifenyddol ar gyfer ystod o grwpiau, byrddau, a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Cynllunio ac amserlennu ein rhaglen arolygu a gwaith arall
- Gwasanaethau ymchwilio a dadansoddi
- Gwasanaethau cymorth gweithredol ar gyfer cyflwyno arolygu
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid – cyfathrebu a rheoli digwyddiadau
- Cyhoeddiadau
- Rheoli cwynion a Rhyddid Gwybodaeth
- Cyllid, yn cynnwys llunio ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Caffael
- Adnoddau Dynol a datblygu sefydliadol
- Cyfleusterau swyddfa a gwasanaethau cymorth TG
- Cynlluniau a gweithredoedd corfforaethol, yn cynnwys ein Cynllun Blynyddol, mentrau amgylcheddol, iechyd corfforaethol a lles



Byddwch:

- yn mwynhau her baich gwaith amrywiol
- yn meddu ar fedrau cyfathrebu rhagorol (ar lafar ac yn ysgrifenedig)
- yn gyfforddus yn cael sgyrsiau sensitif
- yn defnyddio eich medrau arwain a dadansoddi
- yn hyderus wrth ddefnyddio TG a sut i'w defnyddio i wella cyflwyno gwasanaethau
- yn gweithio'n gydweithredol ac yn hyblyg
- yn hyderus yn gweithio mewn amgylchedd sy'n newid ac yn hyblyg i newidiadau mewn cyfrifoldebau rheoli sy'n briodol i'r radd

Mae hwn yn gyfle rhagorol i gael profiad o ystod o feysydd rheoli a gwella eich medrau arwain mewn sefydliad sy'n cael ei raddio'n gyson o fewn sefydliadau uchaf y Gwasanaethau Sifil sy'n cymryd rhan yn Arolwg blynyddol Pobl y Gwasanaeth Sifil.

Mae ein cydweithwyr corfforaethol yn dod o ystod eang o gefndiroedd. Efallai eich bod wedi gweithio mewn sefydliad mawr neu sefydliad bach, mewn amgylchedd Cymraeg neu ddwyieithog, yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat. Byddwch chi wedi arfer delio ag amrywiaeth eang o bobl, yn fewnol ac yn allanol, ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm cefnogol.

Er bod gennym swyddi gwag ar gyfer dwy rôl benodol, os bydd mwy o ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf na'r nifer sydd ei hangen ar hyn o bryd, efallai y byddwn yn creu rhestr wrth gefn. Gallem ddefnyddio unrhyw restr wrth gefn i lenwi'r un rôl neu rolau tebyg yn y dyfodol.

**Teitl y Swydd:** Pennaeth Cangen (Gradd 7) **Hyd:** Parhaol

**Cyflog:** £50,870 - £60,830 (Sylwer y bydd cyflog cychwynnol fel arfer yn cael ei gynnig ar ran isaf y band)

**Y Gymraeg:** Rydym yn gweithio yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, ac mae llawer o'n rhanddeiliaid yn ddwyieithog. Mae medrau Cymraeg (ysgrifenedig a llafar) yn hynod ddymunol ar gyfer y swyddi hyn.

**Lleoliad:** Bydd y rôl wedi ei lleoli yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Rydym yn gweithio o bell ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Wrth i'r cyfyngiadau hyn lacio, rydym yn archwilio trefniadau gweithio hybrid anffurfiol yn amodol ar anghenion busnes, a chytundeb eich rheolwr. Ni ellir gweithio yn y rôl hon dramor; dim ond yn y Deyrnas Unedig.

**Oriau gwaith:** 37 awr, 5 diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener), ac eithrio breaks. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i gais am rannu swydd neu lai o oriau, yn unol â'n Polisi Gweithio Hyblyg.

**Cenedligrwydd:** I fod yn gymwys ar gyfer y rolau hyn, rhaid i chi fodloni'r gofynion cenedligrwydd a amlinellir yn ein Arweiniad i Ymgeiswyr

# Manyleb yr Unigolyn

**Meini prawf yn benodol i swydd**

Mae'n hanfodol:

- cael profiad o reoli timau, a dealltwriaeth glir o egwyddorion rheoli tîm, yn cynnwys rheoli newid
- gallu datblygu a chynnal perthnasoedd gweithio cynhyrchiol, a chymell ac ysbrydoli cydweithwyr
- gallu gosod cyfeiriad trwy wneud penderfyniadau effeithiol
- cael medrau blaenoriaethu a rheoli amser rhagorol i reoli gweithgareddau lluosog
- meddu ar y gallu i aildrefnu prosesau busnes a sicrhau bod y prosesau priodol ar waith ac yn cael eu cymhwyso i gyflwyno gwasanaethau effeithiol
- meddu ar fedrau cyfathrebu a medrau rhyngbersonol da sy'n eich galluogi i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gweithio cynhyrchiol, ac yn herio, dylanwadu ac argyhoeddi uwch reolwyr a rhanddeiliaid eraill mewn modd adeiladol
- gallu cynnal effeithiolrwydd personol yn wyneb pwysau, rhwystrau neu wrth ddelio â sefyllfaoedd heriol
- profiad o gyflwyno gwasanaethau a gofal cwsmeriaid o ansawdd da
- profiad o gyllid, e.e. mae dealltwriaeth o egwyddorion craidd cyllid a chyfrifyddu a medrau ariannol a medrau dadansoddol dangosadwy i ddarparu mewnwelediad i gefnogi gwneud penderfyniadau ar lefel uwch yn hanfodol ar gyfer un o'r swyddi hyn

Mae'n fanteisiol eich bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg (ysgrifenedig ac ar lafar)

**Ymddygiadau allweddol**

- Gweld y darlun mawr
- Newid a gwella
- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu a dylanwadu
- Rheoli gwasanaeth o ansawdd da
- Gwneud penderfyniadau effeithiol

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth ac enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn yn y Proffiliau Llwyddiant – Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil ar Lefel 5 – Gradd 7 a 6 neu Radd gyfatebol.

# Amdanom ni – Ein gwaith, ein gwerthoedd

Ni yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn arolygu ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg ledled y wlad. Oherwydd COVID-19, rydym wedi addasu ffocws ein holl waith, a sut caiff ei gyflwyno, ond mae ein cenhadaeth, gweledigaeth, amcanion strategol a gwerthoedd wedi aros yr un fath.

**Cenhadaeth a gweledigaeth**

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

**Amcanion strategol**

**Darparu atebolrwydd cyhoeddus** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Llywio datblygiad polisi** cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

**Meithrin gallu** i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Gwerthoedd**

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith
- Annog cyfrifoldeb, menter ac arloesedd

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi Cynllun Blynyddol sy'n amlinellu'r gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn. Gellir cael mwy o wybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni.

Fel Gweision Sifil, rydym yn fodelu'r gwerthoedd, yr ymddygiadau a'r safonau a amlinellir yn Natganiad Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Sifil a Chod y Gwasanaeth Sifil.

# Buddion ymuno ag Estyn

**Cyflog cystadleuol** – Yr ystod cyflog yw £50,870 - £60,830. Bydd y cyflog cychwynnol fel arfer ar bwynt cyntaf y raddfa uwchlaw eich cyflog presennol (o fewn yr ystod hon). Gallwch weld graddfa gyflog lawn y Radd 7 yma. Gyda dilyniant cynyddol, byddwch chi fel arfer yn cyrraedd uchafswm y raddfa gyflog o fewn tair blynedd p ymuno â ni

**Hawl hael i wyliau** – 31 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus / braint bob blwyddyn. Rhoddir gwyliau blynyddol ar sail pro-rata ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan-amser. Mae rhagor o opsiynau gwyliau â thâl / heb dâl ar gael i'r rheiny i helpu cyfuno gwaith ag ymrwymiadau a chyfrifoldebau eraill mewn bywyd (e.e. seibiant gyrfa, absenoldeb tosturiol, maethu a mabwysiadu, ac ati), yn amodol ar anghenion busnes

**Gweithio hyblyg** – Ein horiau gwaith arferol yw 37 awr dros wythnos 5 diwrnod (dydd Llun i ddydd Gwener), ac eithrio egwylion. Yn ogystal â'ch hawl i ofyn am gael gweithio'n hyblyg, byddwch chi'n elwa ar ein cynllun oriau gweithio hyblyg i helpu rheoli eich cydbwysedd o ran gwaith / bywyd

**Pensiwn rhagorol** – Dewiswch o gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig gydag Estyn yn cyfrannu hyd at 27.9% o'ch cyflog neu drefniant cyfraniad diffiniedig. Rydym yn rhan o *Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil*. Os ydych chi eisoes mewn Cynllun Pensiwn, gallwch chi rewi hyn neu'i drosglwyddo i *Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil*

**Cymorth ar gyfer eich lles** – Rydym yn darparu rhaglen cymorth i gyflogeion 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, yn cynnwys cwnsela cymorth emosiynol ac ymgynghorwyr arbenigol, gwiriad iechyd blynyddol am ddim, swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig, cynllun gofal llygaid am ddim a chymhorthdal ar gyfer pigiadau rhag y ffliw. Rydym wedi ennill y Wobr Arian ar gyfer y Safon Iechyd Corfforaethol am ein cymorth ar gyfer iechyd a lles. Hefyd, rydym yn darparu cyfle i fanteisio ar Gynlluniau Yswiriant Iechyd trwy *Ofal Iechyd y Gwasanaeth Sifil.*

**Amrywiaeth a chynhwysiant** – Rydym ni eisiau uchafu potensial pawb sy'n gweithio i ni – ni waeth beth yw eu cefndir. Rydym wedi creu amgylchedd gwaith, sy'n groesawgar, yn barchus, ac yn ddifyr i bawb, gyda chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol

**Cymorth ar gyfer bywyd teuluol** – amodau hael ar gyfer absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhiant a rennir ac absenoldeb rhiant, a gweithio hyblyg

**Arbedion di-dreth** – Cyfle i fanteisio ar gynllun beicio i'r gwaith a chynllun car gwyrdd

**Cymorth ariannol ychwanegol** – yn cynnwys blaenswm cyflog di-log ar gyfer tocynnau teithio tymhorol

**Cynigion a gostyngiadau arbennig** – Cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o ostyngiadau a chynigion arbennig ar gyfer llawer o siopau'r stryd fawr, sinemâu, archfarchnadoedd, gwyliau, tai bwyta, campfeydd ac atyniadau i deuluoedd trwy *Glwb Cymdeithasol y Gwasanaeth Sifil – Chwaraeon a Hamdden*. Cyfle i elwa ar ragor o fuddion a gwasanaethau, yn cynnwys *Cymdeithas Foduro'r Gwasanaeth Sifil, Cymdeithas Yswiriant y Gwasanaeth Sifil* a'r *Elusen ar gyfer Gweision Sifil*

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan, sef: https://www.estyn.llyw.cymru/gweithioiEstyn

# Ymgeisiwch nawr!

Lawrlwythwch ein ffurflen gais:  www.estyn.llyw.cymru/gweithio-ni/gweithio-i-ni

Download the application guidance www.estyn.llyw.cymru/gweithio-ni/gweithio-i-ni

**Dyddiad cau:  Dydd Llun 18 Hydref 10yb**

Nid ydym yn ystyried unrhyw geisiadau sy'n dod i law ar ôl yr amser a'r dyddiad hwn, nac unrhyw geisiadau anghyflawn.

Anfonwch eich cais i: **recriwtio@estyn.llyw.cymru**

Rydym yn argymell y dylech anfon eich cais drwy'r e-bost. Gan fod y swyddfa ar gau ar hyn o bryd, mae oedi o ran cael post, a allai olygu bod eich cais yn hwyr. Os na allwch chi ddefnyddio'r e-bost, cysylltwch â Shuna Lovering ar 029 2044 6307.

**Dogfennau amgen neu hygyrch**

Os hoffech chi wneud cais neu gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â Shuna Lovering i drafod eich gofynion.

# Ymholiadau Pellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymarfer recriwtio hwn nad ydym wedi eu hateb yn y pecyn hwn, cysylltwch â Shuna Lovering, ar 029 2044 6307, neu recriwtio@estyn.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd oedi wrth i ni ymateb.

# Amserlen ddewis

**Swydd wag yn fyw**

30 Medi 2021

**Dyddiad cau**

18 Hydref 2021 10yb

**Cyfarfod i lunio'r rhestr fer**

21 Hydref 2021

**Asesiad a Chyfweliad**

Asesiad y wythnos yn dechrau 1 Tachwedd

Chyfweliad 8 & 9 Tachwedd 2021

**Penodi ymgeisydd**

*Mae dyddiadau yn agored i'w newid